



# Adolygiad Strategol o Gyfathrebu Digidol

Crynodeb Gweithredol

Ymgynghoriad

Dyddiad cyhoeddi: 16 Gorffennaf 2015

Dyddiad Cau ar gyfer Ymatebion: 08 Hydref 2015

## Y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi prif elfennau'r adolygiad mae Ofcom yn ei gynnal i farchnadoedd cyfathrebu digidol y DU. Dyma ein hasesiad strategol cyntaf o'r sector telegyfathrebu mewn deng mlynedd a dim ond yr ail ers sefydlu Ofcom yn 2003. Nod yr adolygiad ydy sicrhau bod marchnadoedd cyfathrebu digidol yn parhau i weithio er budd defnyddwyr, dinasyddion a busnesau.

Ers cyhoeddi'r adolygiad ym mis Mawrth 2015, rydyn ni wedi cwrdd yn anffurfiol ag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys cwmnïau rydyn ni'n eu rheoleiddio, grwpiau defnyddwyr, arsylwyr y diwydiant, arbenigwyr academiaidd a chyrff cyhoeddus. Roeddem hefyd wedi cynnal fforwm rhanddeiliaid ym mis Mai, ac yna cyfres o weithdai ar themâu penodol.

Mae'r ddogfen hon yn ymgynghori â rhanddeiliaid yn fwy ffurfiol. Rydyn ni'n gobeithio clywed gan bawb sy'n ymwneud â gwasanaethau cyfathrebu digidol, gan gynnwys defnyddwyr, busnesau, darparwyr cyfathrebu a chyrff cyhoeddus, a hynny o bob cwr o wledydd a rhanbarthau'r DU. Rydyn ni hefyd eisiau clywed safbwyntiau llunwyr polisïau a deddfwyr sy'n gosod y fframwaith statudol rydyn ni'n gweithredu ynddo. Wrth gyhoeddi'r ddogfen hon, ein nod ydy sicrhau bod unrhyw gasgliadau byddwn ni'n eu llunio yn seiliedig ar asesiad cywir o'r holl dystiolaeth sydd ar gael. Rydyn ni'n awyddus i glywed gan y rheini sydd â safbwyntiau gwahanol ynghylch ein dadansoddiad, neu sy'n dymuno cynnig eu safbwyntiau eu hunain.

Ar hyn o bryd nid ydym wedi llunio unrhyw gynigion i newid ein strategaeth na'n dulliau rheoleiddio. Ar ôl i ni bwysu a mesur yr holl dystiolaeth a'r ymatebion i'r ymgynghoriad, rydyn ni'n bwriadu gwneud hynny ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'n bosibl y gellid gweithredu unrhyw gynigion a wneir o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol. Fodd bynnag, mae'n bosibl hefyd y byddwn yn argymhell newidiadau, naill ai i'r fframwaith Ewropeaidd neu i ddeddfwriaeth ddomestig.

Daw'r ymgynghoriad i ben ar 8 Hydref 2015. Anfonwch eich ymatebion i [digital.communications.review@ofcom.org.uk](mailto:digital.communications.review@ofcom.org.uk).

## Adran 1

# Crynodeb Gweithredol

## Adolygu tirwedd wahanol iawn i dirwedd 2005

- 1.1 Mae'r sector telegyfathrebu heddiw yn hollol wahanol i'r un a adolygodd Ofcom y tro diwethaf. Daeth ein hasesiad strategol i ben yn 2005 ar adeg pan:
- roedd gwasanaethau band eang sefydlog ar gael yn eang, ond dim ond cyflymder o 128kbit yr eiliad oedd yn rhaid iddyn nhw ei ddarparu i gael eu galw yn 'fand eang'. Heddiw, mae band eang cyflym iawn yn gallu darparu cyflymder o 30Mbit yr eiliad o leiaf i 83% o gartrefi'r DU<sup>1</sup>. Mae disgwyl y bydd y ffigur hwn yn codi i 95% erbyn 2017<sup>1</sup>.
  - roedd y nifer a oedd yn defnyddio band eang sefydlog yn 31%, o'i gymharu â 78% nawr, ac mae bron i un cysylltiad o bob tri nawr yn gysylltiad cyflym iawn<sup>2</sup>.
  - megis dechrau oedd band eang symudol. Roedd y rhwydweithiau data symudol newydd yn seiliedig ar dechnoleg 3G. Roedd y catalydd ar gyfer cymaint o arloesi, iPhone Apple, ddwy flynedd i ffwrdd. Nawr, mae dwy ran o dair o oedolion y DU yn berchen ar ffôn clyfar, ac mae gan dros hanner cartrefi'r DU dabled<sup>3</sup>.
  - roedd y gwasanaethau teledu cyntaf yn dechrau cael eu cynnig dros fand eang, ond nid oedd llawer o ddefnyddwyr yn eu defnyddio. Byddai'n rhaid aros tan lansio BBC iPlayer yn 2007 a Netflix i ddangos potensial ffrydio gwasanaethau fideo, sy'n cael eu darparu dros ryngwyd band eang. Nawr, mae 48% o'r data sy'n cael ei gludo dros rwydweithiau band eang sefydlog y DU yn ffrydio fideo<sup>4</sup>.
- 1.2 Er bod y ffrwydrad hwn mewn gwasanaethau wedi cael ei sbarduno gan y sector masnachol gan fwyaf, mae polisi cystadleuaeth hefyd wedi chwarae rhan bwysig.
- 1.3 O ran telegyfathrebu sefydlog, roedd adolygiad strategol cyntaf Ofcom wedi arwain at greu Openreach fel endid sy'n gweithredu ar wahân i weddill BT. Mae Openreach yn gyfrifol am weithredu 'milltir olaf' rhwydwaith mynediad BT ar ran pob darparwr cyfathrebu. Gallai darparwyr a oedd yn cystadlu â'i gilydd nawr gael gafael ar rwydwaith BT ar delerau cyfartal ac roedd hyn wedi cyfrannu at un o'r marchnadoedd band eang mwyaf cystadleuol ym mhrif economïau Ewrop. Roedd pris cyfartalog pecyn band eang bron wedi haneru rhwng 2004 a 2012, ac roedd y nifer a oedd yn prynu band eang cyflym iawn yn 2013 ddwywaith yn fwy na chyfartaledd pedair prif

<sup>1</sup> Dadansoddiad Ofcom o ddata gweithredwyr, Mai 2015. Mae'r data hwn wedi cael ei gasglu gan weithredwyr ar gyfer ein Diweddariad i'r Adroddiad Seilwaith sydd ar y gweill, a gyhoeddir yn nes ymlaen eleni.

<sup>2</sup>Ofcom/operators

<sup>3</sup>Traciwr Technoleg Ofcom, Ton 1, 2015, Tabl 32/54/66:

[http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/research/statistics/2015April/Ofcom\\_Technology\\_Tracker\\_Wave\\_1\\_2015\\_Data\\_Tables1.pdf](http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/research/statistics/2015April/Ofcom_Technology_Tracker_Wave_1_2015_Data_Tables1.pdf)

<sup>4</sup>Adroddiad Seilwaith, Tachwedd 2014, t.164:

<http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/research/infrastructure/2014/infrastructure-14.pdf>

economi fawr arall Ewrop<sup>56</sup>. Mae pris cyfartalog pecyn band eang i'r cartref wedi disgyn 40% mewn termau real rhwng 2004 a 2014.

- 1.4 O ran gwasanaethau symudol, mae cystadleuaeth wedi torri dwy ran o dair oddi ar gost bwndel arferol o wasanaethau symudol, o oddeutu £40 yn 2003 i £13 yn 2012<sup>7</sup>. Mae mynediad i sbectrwm wedi arwain at y gystadleuaeth hon, gyda'r arwerthiant sbectrwm 3G wedi cael ei ddylunio i annog gweithredwyr rhwydwaith newydd i ymuno â'r farchnad, a'r arwerthiant 4G i gynnal pedwar cyfanwerthwr cenedlaethol. Mae prisiau is wedi dod law yn llaw ag arloesedd: er enghraifft, roedd Three, fel brand a oedd yn herio, wedi cyflwyno tariffau data 'all you can eat' a gwasanaethau Skype, ac roedd wedi dileu ffioedd crwydro o nifer o wledydd.
- 1.5 O ran teledu, mae talu am wasanaethau wedi ennill momentwm, gan godi o 44% o gartrefi ddeng mlynedd yn ôl i 59% o gartrefi heddiw<sup>8</sup>. Mae teledu hefyd yn cael ei ddarparu dros fand eang, ac mae'n gynyddol ddod yn rhan o fwndeli adwerthu gyda band eang a gwasanaethau ffôn. Mae'r nifer o gwsmeriaid sydd â theledu sydd wedi cysylltu yn cynyddu: mae gan dros 50% o gartrefi sydd â theledu yn y DU ddyfais teledu sydd wedi cysylltu<sup>9</sup>. Mae gwasanaethau teledu ar-lein hefyd wedi gweld twf sylweddol: Mae gan Netflix 4m o gwsmeriaid yn y DU nawr ac mae gan Amazon Prime 1.2m o gwsmeriaid<sup>10</sup>.
- 1.6 Yn 2010, yn dilyn adolygiad o deledu drwy dalu, daeth Ofcom i'r casgliad y dylai fod yn rhaid i Sky gynnig Sky Sports 1 a 2 i adwerthwyr a oedd yn gystadleuwyr. Er bod y penderfyniad hwn wedi bod yn destun apêl gyfreithiol, mae trefniadau interim yn dal ar waith sy'n cynnal effeithiau'r rheoliad ar gyfer nifer o ddarparwyr. Mae defnyddwyr nawr yn gallu prynu bwndeli adwerthu sy'n cynnwys y sianeli hyn nid yn unig gan Sky a Virgin Media ond hefyd gan TalkTalk a BT.

### Efallai fod sialensiau newydd yn dod i'r fei

- 1.7 Mae gwasanaethu buddiannau defnyddwyr a dinasyddion - yn unigolion preifat neu'n fusnesau - wrth galon gwaith Ofcom. Ein gwaith ni ydy sicrhau bod y marchnadoedd yn gweithio er eu budd drwy hybu cystadleuaeth pan fydd hynny'n briodol.

### Newidiadau yng ngofynion y defnyddwyr a busnesau

- 1.8 Er bod defnyddwyr gwasanaethau telegyfathrebu'r DU wedi mwynhau canlyniadau cadarnhaol gan fwyaf dros y degawd diwethaf, mae rhai pryderon yn dal i fodoli. Wrth i ni gyd ddibynnu mwy a mwy ar wasanaethau cyfathrebu, mae angen gwneud rhagor i sicrhau bod band eang sefydlog cyflym iawn a darpariaeth symudol well ar gael yn eang. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer pobl mewn ardaloedd sydd â llai o boblogaeth, ar gyfer defnyddwyr agored i niwed ac ar gyfer busnesau bach. Yn fwy cyffredinol, mae pryderon yn parhau ynghylch ansawdd y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan rai darparwyr.

<sup>5</sup> Ffrainc, yr Almaen, Sbaen a'r Eidal

<sup>6</sup> Adroddiad y Farchnad Gyfathrebu Ryngwladol, Rhagfyr 2014, t.25:

[http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/research/cmr/cmr14/icmr/ICMR\\_2014.pdf](http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/research/cmr/cmr14/icmr/ICMR_2014.pdf).

<sup>7</sup> Gwasanaethau cyfathrebu a dinasyddion, Ionawr 2015, t.33:

[http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/research/cross-media/Citizens\\_Report.pdf](http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/research/cross-media/Citizens_Report.pdf).

<sup>8</sup> Traciwr Technoleg Ofcom, Ch1, 2005-2015.

<sup>9</sup> Ymchwil gan yr ymgynghorwyr cyfryngau, 3 Reasons. Mae teledu sydd wedi cysylltu'n cyfeirio at deledu sydd wedi cysylltu â'r rhyngwyd, un ai drwy flwch pen set neu deledu clyfar ar ddiwedd 2014

<sup>10</sup> Arolwg Sefydlu BARB, Ch1 2015

- 1.9 Mae sialensiau ffres i'w diwallu hefyd. Er bod yr amcangyfrifon yn amrywio, mae pawb yn cytuno y bydd y galw am ddata yn tyfu'n sylweddol yn y dyfodol. Yn y maes telegyfathrebu sefydlog, mae hyn yn debyg o alw am don newydd o fuddsoddiad mewn gwasanaethau band eang 'tra chyflym'. Yn y maes gwasanaethau symudol, mae'n debyg y bydd angen mwy o fuddsoddiad mewn 4G ac, yn y pen draw, newid i 5G.

### Strwythur marchnadoedd a gwasanaethau cyfathrebu

- 1.10 Mae sut caiff gwasanaethau eu darparu i ddefnyddwyr a busnesau yn dal i newid. Mae defnyddwyr yn gallu prynu gwasanaethau a chysylltedd gan ddarparwyr sydd wedi'u hintegreiddio'n fertigol mewn bwndeli wedi'u "rheoli" gyda'u cysylltiad band eang, neu maen nhw'n gallu prynu gwasanaethau ar wahân drwy fand eang dros y rhyngwyd. Mae'r gwerth cymharol sy'n cael ei roi gan ddefnyddwyr i'w cysylltiad band eang ar un llaw, a'r gwasanaethau a'r cynnwys sy'n cael eu darparu drosto ar y llaw arall, hefyd yn newid yn gyson.
- 1.11 Ar yr un pryd, gwelwyd llwyth o uno a phrynu ar draws Ewrop, ac yn fyd-eang, a nod hyn ydy mynd i'r afael â'r cyfuno cynyddol a welir gyda gwasanaethau ac wrth ystyried pwysigrwydd cynyddol graddfa. Mae'r rhain yn cynnwys uno symudol yn unig ac uno chwaraewyr sefydlog a symudol; mae rhai yn cynnwys gweithredwyr domestig yn unig ac mae rhai eraill yn golygu prynu rhyngwladol.

### Pedair sialens strategol ar gyfer rheoleiddio

- 1.12 Wrth i ni ddiffinio ein strategaeth ar gyfer y deng mlynedd nesaf, mae canlyniadau da i ddefnyddwyr ac i fusnesau yn ganolog i'n gwaith. Rydyn ni'n cynnig asesu'r canlyniadau hyn dan bedwar pennawd cyffredinol:
- **Buddsoddi ac arloesi, sicrhau bod gwasanaethau ar gael yn eang.** Rhaid i'n strategaeth roi'r cymhellion iawn ar gyfer arloesi a buddsoddi gan y sector preifat, er mwyn sicrhau bod yr ystod lawn o wasanaethau ar gael yn eang. Byddwn hefyd yn canolbwyntio ar yr hyn mae angen ei wneud i sicrhau bod gwasanaethau ar gael mewn ardaloedd nad ydyn nhw'n cael eu hystyried fel rhai hyfyw yn fasnachol.
  - **Cystadleuaeth gynaliadwy, sy'n sicrhau dewis, ansawdd a phrisiau fforddiadwy.** Yn gyffredinol, rydyn ni'n credu mai'r mecanwaith gorau ar gyfer sicrhau dewis, ansawdd a phrisiau fforddiadwy ydy marchnad gystadleuol iach. Byddwn yn parhau i hybu hyn drwy reoleiddio sy'n diogelu cystadleuaeth a chymhellion ar gyfer buddsoddi'n effeithlon.
  - **Defnyddwyr a busnesau wedi'u grymuso sy'n gallu manteisio ar farchnadoedd cystadleuol.** Dydy cystadleuaeth ddim ond yn effeithiol pan fydd defnyddwyr yn gallu gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth - ac yn gallu gweithredu'n hawdd ar y wybodaeth honno i newid pethau os ydynt yn dymuno gwneud hynny.
  - **Rheoleiddio wedi'i dargedu pan fydd angen; dadreoleiddio mewn manau eraill.** Mae rheoleiddio'n gweithio orau pan fydd yn cael ei dargedu lle mae ei angen, a'i dynnu lle na fydd ei angen.
- 1.13 Mae'r canlyniadau hyn a geisir yn gyrru ein strategaeth bresennol ar draws gwasanaethau cyfathrebu digidol ac rydyn ni'n credu y byddan nhw'n berthnasol i'r dyfodol. Byddwn yn edrych ar bob un yn fanylach isod.

## Buddsoddi ac arloesi, sicrhau bod gwasanaethau ar gael yn eang a bod eu hansawdd yn uwch

- 1.14 Un nod allweddol yn ein strategaeth ydy sicrhau bod dinasyddion a busnesau yn y DU yn cael eu gwasanaethu gan wasanaethau telegyfathrebu, sefydlog a symudol, o ansawdd uchel sydd ar gael yn eang. Mae hyn yn arwain at fanteision sylweddol i ddefnyddwyr unigol ac i ddinasyddion ac i gymdeithas yn fwy cyffredinol.
- 1.15 Mae hon yn gallu bod yn sialens fawr mewn ardaloedd gwledig, sy'n aml yn gwneud yn waeth o lawer nag ardaloedd trefol. Yn rhannol, mae hyn oherwydd bod costau ymestyn seilwaith yn uwch lle mae llai o bobl. Mae ardaloedd anghysbell yn gallu bod yn heriol, yn yr un modd ag argaeledd ar gyfer achosion defnydd penodol, gan gynnwys ffyrdd a rheilffyrdd ar gyfer gwasanaethau symudol. Ond byddai'n anghywir dweud mai dim ond mewn ardaloedd gwledig ceir problemau: mae problemau mewn rhai lleoliadau trefol hefyd gydag argaeledd a chyflymder gwasanaethau, wedi'u hachosi'n rhannol gan bensaerniaeth rhwydwaith, costau defnyddio neu ffactorau ar yr ochr galw, fel incymau isel.
- 1.16 Mae angen i ni ystyried hefyd bod gan bob un o wledydd a rhanbarthau'r DU gymysgedd gwahanol o nodweddion sy'n effeithio ar argaeledd rhwydwaith yn yr ardaloedd hynny a rhyngddynt.
- 1.17 Mae technoleg band eang sefydlog ar gael ym mhob man bron, ond mae'r cyflymder a gaiff defnyddwyr yn amrywio'n sylweddol. Mae natur ddeinamig esblygiad band eang yn cael ei gyrru ymlaen gan donnau olynol o fuddsoddiad mewn technoleg dros amser. Heddiw mae hyn yn arwain at dair sialens:
- **Band eang cyffredinol.** Dyma'r band eang 'lefel sylfaenol' y mae angen iddo fod ar gael i bob cartref i sicrhau nad ydyn nhw'n cael eu heithrio o fanteision byw mewn cymdeithas ddigidol. Rydyn ni'n amcangyfrif bod cartref nodweddiadol angen cyflymder o 10Mbit yr eiliad er mwyn gallu defnyddio'r gwasanaethau ar-lein mwyaf poblogaidd. Ond heddiw, mae 8% o eiddo'r DU yn disgyn o dan y trothwy hwn, gyda tua 2% (506,000 o gartrefi) yn methu cael y gwasanaeth 2Mbit yr eiliad mwyaf sylfaenol<sup>11</sup>. Mae cost yn fater hefyd: efallai nad ydy rhai defnyddwyr yn gallu fforddio band eang o gwbl. Efallai fod y canrannau yn fach, ond mae cyfanswm nifer y cartrefi y mae argaeledd a fforddiadwyedd yn effeithio arnyn nhw'n dal yn sylweddol.
  - **Band eang cyflym iawn.** Ar hyn o bryd rydyn ni'n disgwyl i fand eang cyflym iawn sy'n cynnig cyflymder o dros 24Mbit yr eiliad fod ar gael i 95% o gartrefi'r DU, a 82% o fusnesau bach erbyn 2017. Mae cyflym iawn wedi cael ei ddefnyddio'n gyflym ac mae ei gyflwyno'n cymharu'n dda â nifer o wledydd eraill. Fodd bynnag, mae dal angen gwella argaeledd, yn enwedig i fusnesau bach.
  - **Band eang tra chyflym.** Dros y misoedd diwethaf cyhoeddodd BT y byddai'ndarparu cyflymder tra chyflym o hyd at 500Mbit yr eiliad i'r rhan fwyaf o'r DU cyn pen degawd. Mae Virgin Media hefyd wedi cyhoeddi cynlluniau i ymestyn ei rwydwaith cebl i ddwy ran o dair o eiddo'r DU a'i raglen dra chyflym ei hun.

<sup>11</sup>Dadansoddiad Ofcom o ddata gweithredwyr, Mai 2015. Mae'r data hwn wedi cael ei gasglu gan weithredwyr ar gyfer ein Diweddariad i'r Adroddiad Seilwaith sydd ar y gweill, a gyhoeddir yn nes ymlaen eleni. Mae'r ffigurau hyn yn deillio o ddadansoddiad newydd, a gynhaliwyd am y tro cyntaf eleni, felly nid oes modd eu cymharu â dadansoddiadau blaenorol. Mae'n bosib y bydd y ffigurau hyn yn newid.

Mae CityFibre wedi gorffen cam cyntaf ei dreial i ddefnyddio ffibr i'r cartref yng Nghaerefrog, gyda TalkTalk yn cyhoeddi prisiau ar gyfer ei dreial ef. Mae'r datblygiadau masnachol hyn yn galonogol.

1.18 Er bod y DU yn mwynhau gwasanaethau symudol sydd ar gael yn eang, mae bylchau sylweddol mewn darpariaeth, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Yn yr un modd â band eang, mae hyn yn peri pryderon ynghylch cynhwysiant cymdeithasol a'r rhaniad digidol cynyddol. Mewn ardaloedd trefol, y sialens allweddol fydd diwallu'r cynnydd yn y galw am ddata symudol. Yn fwy penodol:

- **Darpariaeth symudol – llais.** Mae'r rhan fwyaf o eiddo'r DU yn cael eu gwasanaethu gan rwydweithiau llais 2G, gyda 97% o eiddo'r DU yn cael darpariaeth yn yr awyr agored gan bob gweithredwr. Fodd bynnag, nid yw'r ffigur hwn gystal ar gyfer darpariaeth dan do (83%) lle bydd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn gwneud eu galwadau ac ar gyfer darpariaeth yn y car ar ffyrdd A a B (59%)<sup>12</sup>.
- **Darpariaeth symudol – data.** Mae'r ddarpariaeth data sydd ar gael drwy rwydweithiau 3G yn is na 2G llais, gyda 84% o eiddo'r DU yn cael darpariaeth yn yr awyr agored gan bob gweithredwr yn 2014, 71% yn cael darpariaeth dan do, a dim ond 30% o ffyrdd A a B yn cael darpariaeth yn y car<sup>13</sup>. Fodd bynnag, bydd y ffigurau hyn yn gwella wrth gyflwyno 4G. Mae'r ffigurau cyfredol yn dangos heddiw bod 4G yn darparu darpariaeth yn yr awyr agored gan o leiaf un gweithredwr rhwydwaith symudol i 90% o eiddo<sup>14</sup>.
- **Twf mewn capasiti.** Er bod y rhagolygon yn amrywio, rydyn ni'n disgwyl y gallai lefelau cyffredinol traffig data gynyddu fesul ffactor o 45 rhwng 2014 a 2030<sup>15</sup>. Rydyn ni'n disgwyl y caiff hyn ei ddiwallu'n rhannol drwy ryddhau rhagor o sbectrwm, gan gynnwys yr arwerthiant sydd ar y gweill ar gyfer y sbectrwm 2.3 a 3.4 GHz, a chlirio'r band 700MHz. Bydd defnyddio sbectrwm yn fwy effeithlon a defnyddio nifer mwy o orsafoedd bach hefyd yn bwysig.
- **Ansawdd y profiad o ddyfeisiau symudol.** Yn wahanol i wasanaethau sefydlog, mae ystod ehangach o ffactorau'n effeithio ar brofiad defnyddwyr gwasanaethau symudol. Mae'r rhain yn cynnwys darpariaeth rhwydwaith a chapasiti, amgylchiadau'r defnyddwyr symudol (ee cerddwyr yn yr awyr agored, mewn car neu ar drên er enghraifft), lefel y galw, optimeiddio'r rhwydwaith ar gyfer rhai gwasanaethau, a gallu'r setiau ffôn. Wrth i ddefnyddwyr ddod i ddisgwyl argaeledd cyffredinol a galluoedd sydd bob amser ar waith, mae hyn yn peri sialensiau sylweddol i fuddsoddi mewn rhwydweithiau symudol.

1.19 Mae angen i ni ystyried dau brif fater sy'n ymwneud ag argaeledd rhwydwaith yn yr adolygiad hwn. Er bod y sector preifat yn cymryd yr awennau o ran buddsoddiad ac arloesedd mewn gwasanaethau cyfathrebu, rhaid i unrhyw reoleiddio a wneir ddiogelu'r cymhellion hyn os ydym am gynyddu argaeledd. Yn ail, rhaid i ni ystyried beth arall byddai modd ei wneud yn yr ardaloedd hynny lle nad yw darparu gwasanaeth yn hyfyw yn fasnachol. Yn gysylltiedig â'r naill fater a'r llall mae'r sialens

<sup>12</sup> Dadansoddiad Ofcom o ddata gweithredwyr, Mehefin 2014 t.75

<http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/research/infrastructure/2014/infrastructure-14.pdf>.

<sup>13</sup> Ibid. t81

<sup>14</sup> Dadansoddiad Ofcom o ddata gweithredwyr, Mai 2015

<sup>15</sup> Ymgynghoriad Ofcom ar ddefnyddio'r band 700 MHz yn y dyfodol, Mai 2014, t3:

<http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/consultations/700MHz/summary/main.pdf>

a fydd buddsoddi mwy mewn rhwydwaith ac argaeledd o reidrwydd yn golygu y bydd yn rhaid i'r cwsmeriaid dalu rhagor.

### Cystadleuaeth i alluogi buddsoddi ac arloesi

- 1.20 Mae ein hagwedd at wella argaeledd wedi dibynnu'n bennaf ar fuddsoddiad gan y sector preifat, wedi'i sbarduno gan gystadleuaeth; byddwn yn camu i mewn yn uniongyrchol dim ond pan fydd daearyddiaeth yn golygu nad yw buddsoddiad masnachol yn hyfyw. Mae hyn yn wahanol i reoleiddio'r cyfleustodau eraill, lle fel rheol ceir mwy o gynllunio canolog, ac rydyn ni'n credu mai dyma'r dull gweithredu mwyaf effeithiol o hyd.
- 1.21 Un rheswm penodol dros yr athroniaeth hon sy'n seiliedig ar y farchnad yw bod cystadleuaeth yn sbarduno arloesedd. Nid yw hyn yn ymwneud â dim ond seilwaith newydd, ond mae'n ymwneud â harneisio datblygiadau technoleg fel pŵer prosesu sy'n gallu gwella profiad cwsmeriaid o gyfathrebu digidol. Er enghraifft, yn yr esblygiad o 2G i 3G i 4G, mae'r gweithredwyr symudol nawr yn defnyddio sbectrwm hyd at 10 gwaith yn fwy effeithlon. Yn yr un modd, mae faint o led band mae modd ei gludo dros rwydwaith mynediad copr sefydlog wedi cynyddu'n sylweddol. Yn 2005, roedd band eang ADSL yn darparu cyflymder o 8Mbit yr eiliad. Yn ddiweddar, mae BT wedi cyhoeddi ei fod yn bwriadu buddsoddi yn nhechnoleg band eang copr y genhedlaeth nesaf (o'r enw G.Fast) a disgwylir y bydd hyn yn darparu cyflymder o 500Mbit yr eiliad.
- 1.22 Ar ben hynny, mae'r sector cyfathrebu yn wahanol i gyfleustodau eraill. Maen nhw'n cael eu nodweddu gan esblygiad parhaus mewn technolegau a galluoedd gwasanaeth, gan ateb newidiadau yn y galw gan ddefnyddwyr a pharodrwydd amrywiol i dalu am nodweddion gwahanol. Mae'r newid a'r gwahaniaeth a ddaw yn sgil hyn yn arwain at fanteision i ddefnyddwyr, gan roi gwasanaethau neu becynnau o wasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion orau.
- 1.23 Mae'r don ddiweddar o uno cwmnïau gwasanaethau symudol yn rhyngwladol wedi arwain at awgrymiadau gan rai sylwebwyr y byddai buddsoddiad yn cynyddu petai lefelau cystadleuaeth yn is. Nid ydym yn credu bod y dystiolaeth yn cefnogi hyn. Mae dadansoddiad econometrig o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys rhai rydyn ni wedi'u comisiynu, yn awgrymu bod perthynas gymhleth rhwng cystadleuaeth a buddsoddiad. Yn ymarferol, mae'n ymddangos bod strwythur y farchnad a dwyster cystadleuol yn cyfuno â nifer o ffactorau eraill o ran dylanwadu ar lefelau'r buddsoddiad.
- 1.24 Mae cystadleuaeth ar sail mynediad a chystadleuaeth o un pen i'r llall yn gallu ysgogi arloesi a buddsoddi.
- Mae tystiolaeth bod cystadleuaeth ar sail mynediad, yn enwedig ar sail mynediad i seilwaith goddefol, yn gallu sbarduno arloesi mewn rhwydweithiau. Er enghraifft, roedd dadfwn delu dolenni lleol yn ffactor pwysig a arweiniodd at welliannau cynnar yn y dechnoleg band eang ADSL ar sail cyfnewidfeydd. Heddiw, mae rhai o wledydd Ewrop wedi gweld buddsoddiad cystadleuol mewn band eang tra chyflym wedi'i gefnogi gan fynediad seilwaith goddefol (ee pibelli, polion a gwifrau mewn adeiladau).



- Mae tystiolaeth<sup>16</sup> o nifer o wledydd hefyd bod cystadleuaeth o un pen i'r llall, rhwng y gweithredwr telegyfathrebu presennol a'r gweithredwr rhwydwaith cebl, wedi bod yn bwysig o ran sbarduno band eang cyflym iawn. Mae rhwydweithiau cebl yn symlach i'w huwchraddio i ddechrau, ac fel rheol mae hyn wedyn yn ysgogi ymateb cystadleuol gan y gweithredwr presennol.
- Mae sylwebwyr wedi nodi hefyd bod Ewrop wedi bod y tu ôl i'r UDA o ran gwasanaethau symudol 4G, ac maen nhw wedi defnyddio hyn i ddadlau bod problem strwythurol ym marchnadoedd Ewrop. Fodd bynnag, roedd nifer o resymau am y dechrau hwyr; yn fwyaf penodol, yr amser sydd ei angen i glirio'r sbectrum radio angenrheidiol. Mae cystadleuaeth o un pen i'r llall yn y DU wedi arwain at ryddhau gwasanaethau 4G yn gyflym, gyda'r gwasanaethau nawr yn cyrraedd 90% o eiddo'r DU.

1.25 Rydyn ni'n dal i greu, lle bynnag y bo'n bosibl, bod cystadleuaeth effeithiol yn helpu i hybu buddsoddiad effeithlon, wedi'i arwain gan y sector preifat. Fodd bynnag, er bod tagfeydd economaidd yn gallu llesteirio cystadleuaeth, mae'n rhaid i ni reoleiddio mewn ffordd sy'n diogelu'r cymhelliant i wneud buddsoddiadau sylweddol ac a allai fod ag elfen o risg iddynt. Rydyn ni'n edrych ar hyn yn fanylach yn yr adran nesaf.

### Sicrhau argaeledd y tu hwnt i ddarpariaeth masnachol

- 1.26 Mae amgylchiadau lle mae lefel yr argaeledd a bennir sy'n angenrheidiol, naill am resymau twf economaidd neu gynhwysiant cymdeithasol, yn mynd y tu hwnt i'r hyn sy'n debyg o gael ei gefnogi gan fuddsoddiad gan y sector preifat. Yn yr amgylchiadau hyn efallai y bydd ymyriad uniongyrchol ond wedi'i dargedu yn briodol.
- 1.27 Wrth ystyried y ffordd orau o gamu i mewn, bydd angen i ni weithio'n agos gyda llywodraeth. Er bod gennym rai mecanweithiau i wella argaeledd (fel rhwymedigaethau darpariaeth mewn trwyddedau symudol), mae gan lywodraethau lifrau eraill gan gynnwys arian cyhoeddus a diwygio cynllunio. Drwy ddull gweithredu wedi'i gydlynw, gallwn ni fabwysiadu'r ffordd fwyaf effeithiol o wella argaeledd ym mhob achos.
- 1.28 Mae rhai enghreifftiau penodol o ymyriadau presennol yn cynnwys:
- **Band eang sefydlog:** bydd y cynllun BDUK sy'n cael ei ariannu gan y llywodraeth yn darparu gwasanaeth sylfaenol 2Mbit yr eiliad i bawb erbyn 2016, a band eang cyflym i 95% o'r DU erbyn 2017.
  - **Llais sefydlog:** Mae gan BT a Kingston Communications rwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol. Mae hyn yn golygu ei bod yn rhaid iddynt ddarparu cysylltiad i'r rhwydwaith ar gais rhesymol, ac am brisiau unfurf, ni waeth lle mae'r lleoliad.
  - **Band eang symudol:** mae gan un o'r trwyddedau 4G rwymedigaeth i ddarparu 98% o ddarpariaeth dan do erbyn diwedd 2017, gydag o leiaf 95% ym mhob un o'r gwledydd. Rydyn ni'n disgwyl y bydd hyn yn arwain at ddarpariaeth well gan yr holl weithredwyr.

---

<sup>16</sup> WIK, Consult, *Cystadleuaeth a buddsoddiad: Dadansoddiad o'r hyn sy'n ysgogi buddsoddi a lles defnyddwyr ym maes telegyfathrebu symudol*, Gorffennaf 2015

- **Llais symudol:** mae cytundeb yn 2014 rhwng y Llywodraeth a gweithredwyr symudol yn ymrwmo'r gweithredwyr i ddarparu 90% o ddarpariaeth ddaearyddol yn y DU erbyn diwedd 2017.

1.29 Er bod yr ymyriadau hyn wedi sicrhau gwelliannau sylweddol mewn argaeledd, mae cwestiynau'n dal i fodoli. Yn benodol, rydyn ni wedi awgrymu yn y gorffennol y dylid codi'r cyflymder band eang sylfaenol, efallai o 2Mbit yr eiliad i 10Mbit yr eiliad ac ym mis Mawrth 2015 cyhoeddodd y Llywodraeth ei bod yn bwriadu cynyddu'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol o gyflymder deialu i 5Mbit yr eiliad. Mae hefyd angen i ni ystyried beth arall gallwn ei wneud i wella darpariaeth symudol. Byddwn yn edrych ar y naill fater a'r llall yn ein Hadroddiad Seilwaith nesaf, a gyhoeddir yn yr hydref, ac a fydd yn cyfrannu at gasgliadau'r adolygiad hwn.

## Cystadleuaeth gynaliadwy, sy'n sicrhau dewis, ansawdd a phrisiau fforddiadwy

- 1.30 Er bod polisi cystadleuaeth wedi cyfrannu at ganlyniadau da i ddefnyddwyr ac i fusnesau, rydyn ni'n wynebu set newydd o gwestiynau nawr:
- O ran telegyfathrebu sefydlog, mae dadl yn datblygu ynghylch a ydy'r model presennol o gystadleuaeth ar sail mynediad, ar sail gwahanu swyddogaethau Openreach, yn dal yn briodol.
  - O ran cyfathrebu symudol, a ydy'r uno diweddar ac sydd ar y gweill yn awgrymu bod y lefel bresennol o gystadleuaeth o un pen i'r llall, lle mae'r chwaraewyr yn berchen ar eu rhwydweithiau eu hunain ac yn eu gweithredu eu hunain, yn anghynaliadwy? Os felly, a fydd angen i ni ddibynnu mwy ar gystadleuaeth ar sail mynediad?
  - Ar draws gwasanaethau cyfathrebu, rhaid defnyddio rheoleiddio sy'n hybu mwy o gystadleuaeth mewn ffyrdd sy'n diogelu cymhellion ar gyfer buddsoddiad newydd, sylweddol ac a allai olygu risg.
  - Mae pwysigrwydd cynyddol cyfuno yn golygu y dylid edrych ar wasanaethau cyfathrebu gyda'i gilydd yn ogystal â fesul un. Weithiau byddan nhw'n ategu ei gilydd, fel bwndel adwerthu o wasanaethau rhwydwaith a chynnwys, neu integrieddiddio'r gwasanaethau hyn yn fertigol i un cwmni. Efallai bydd gwasanaethau eraill yn cymryd lle ei gilydd, fel llais sefydlog, symudol ac ar y rhyngwrdd. Y naill ffordd neu'r llall, efallai bydd angen dull gweithredu neu nod cyson arnom ar gyfer polisi cystadleuaeth ar draws yr ystod lawn o wasanaethau cyfathrebu.
  - Ar draws pob gwasanaeth, mae pryderon yn cael eu codi am ansawdd profiad defnyddwyr a busnesau. Mae hyn yn cynnwys ansawdd gwasanaeth ar y lefel adwerthu, yn ogystal ag ansawdd gwasanaeth cynnyrch cyfanwerthu gan Openreach.

### Hyrwyddo cystadleuaeth mewn telegyfathrebu sefydlog

- 1.31 Mae modd gweld hanes rheoleiddio gwasanaethau telegyfathrebu sefydlog yn y DU fel dadl sydd wedi rhedeg ers tro byd erbyn hyn, dros sawl degawd, ynghylch y ffordd orau o fynd i'r afael â phryderon ynghylch safle BT yn y sector hwn.

- 1.32 Ar ôl preifateiddio BT yn 1984, rheolaeth prisiau adwerthu oedd y prif mecanwaith rheoleiddio i ddiogelu defnyddwyr rhag prisiau uchel. Roedd yr adolygiad deuopoli yn 1991 wedi symud y pwyslais at hybu cystadleuaeth o un pen i'r llall, er enghraifft o gebl. Ond pan welwyd mai cyfyngedig oedd effeithiolrwydd hyn, symudodd y pwyslais eto, i gystadleuaeth ar sail mynediad. Penllanw hyn oedd y dull gweithredu analytig marchnad-fesul-marchnad a nodwyd yn Fframwaith Ewropeaidd 2003.
- 1.33 Yn Adolygiad Strategol 2005 Ofcom o Delegyfathrebu, roeddem wedi nodi bod y sector wedi sicrhau manteision sylweddol i ddefnyddwyr ac i fusnesau. Fodd bynnag, nid oedd yr ystod fawr a chynyddol o ymyriadau a ddyluniwyd i sicrhau mynediad teg i rwydwaith BT mor effeithiol. Felly roeddem wedi cynnig set newydd o egwyddorion rheoleiddio, ac o dan y rheini byddem yn:
- Hyrwyddo cystadleuaeth ar lefelau dyfnaf seilwaith lle bydd yn effeithiol ac yn gynaliadwy;
  - Ffocysu rheoleiddio i ddarparu mynediad cyfartal y tu hwnt i'r lefelau hynny;
  - Cyn gynted ag y bydd yr amodau cystadleuol yn caniatáu, tynnu yn ôl o reoleiddio ar lefelau eraill;
  - Hyrwyddo hinsawdd ffafriol ar gyfer buddsoddi'n effeithlon ac yn amserol ac ysgogi arloesedd, yn enwedig drwy sicrhau dull gweithredu rheoleiddio cyson a thryloyw;
  - Defnyddio atebion rheoleiddio gwahanol ar gyfer cynnyrch gwahanol a, phan fo'n briodol, ardaloedd gwahanol;
  - Creu posibilrwydd ar gyfer ymuno â'r farchnad a allai, dros amser, gael gwared â thagfeydd economaidd; ac
  - Yn y gadwyn gwerth cyfathrebu ehangach, oni bai fod tagfeydd economaidd sy'n parhau, mabwysiadu rheoleiddio economaidd ysgafn ar sail cyfraith cystadleuaeth a hyrwyddo rhyngweithredu.
- 1.34 Yn fwy penodol, roedden ni'n cydnabod bod pŵer BT yn y farchnad a strwythur sydd wedi cael ei integreiddio'n fertigol yn rhoi'r cymhelliant a'r gallu i wahaniaethu yn erbyn cystadleuwyr. Roeddem wedi awgrymu y byddai unrhyw ateb yn galw am gyfuniad o gywerthedd ar lefel y cynnyrch a newid yn ymddygiad BT. Roedd BT wedyn wedi cynnig, a derbyniodd Ofcom, Rwymedigaethau gwirfoddol ond a oedd yn eu rhwymo'n gyfreithiol. Roedd y rhain yn galw am greu Openreach a oedd â swyddogaethau ar wahân. Byddai Openreach yn ymrwymo i werthu cynnyrch allweddol ar sail gyfwerth i bob darparwr.
- 1.35 Mae'r dull gweithredu hwn wedi arwain at nifer o fanteision i ddefnyddwyr ac i fusnesau. Fodd bynnag, mae'n wynebu nifer o sialensiau, er enghraifft:
- Mae strwythur perchnogaeth BT ar hyn o bryd yn golygu bod dal ganddo'r cymhelliant i wahaniaethu yn erbyn darparwyr sy'n cystadlu ag ef. Er bod rheoleiddio'n cyfyngu ar ei allu i wneud hynny, mae cyfleoedd yn dal i allu bodoli. Er enghraifft, mae busnes BT yn is i lawr yn defnyddio cynnyrch cyfanwerthu gwahanol i'w gystadleuwyr, sy'n codi'r posibilrwydd o ansawdd gwasanaeth neu brisiau cynnyrch gwahanol.

- Cafodd y ffin sy'n gwahanu Openreach oddi wrth gweddill BT ei lunio ar adeg pan roedd band eang yn cael ei ddarparu o gyfnewidfeydd ffôn, dros y rhwydwaith mynediad copr a oedd yn bodoli. Roedd cystadleuaeth felly'n canolbwyntio ar ddadfwndelu dolenni lleol unigol. Fodd bynnag, mae rhwydweithiau band eang newydd yn mynd â ffibr yn nes at y cartref, gan newid topoleg y rhwydweithiau mynediad ac o bosibl gan arwain at fodolau newydd o gystadleuaeth.
  - Er ei bod yn rhaid i Openreach drin bob darparwr sy'n cystadlu ag ef yn gyfartal, mae ansawdd ei wasanaeth wedi bod yr un mor sâl i bawb yn rhy aml o lawer. Mae hyn wedi arwain at weld Ofcom yn gosod gofynion perfformiad trwsio a gosod llym. Er bod y dull gweithredu hwn yn gallu bod yn effeithiol, mae'n mynd yn erbyn nod allweddol y setliad rheoleiddio gwreiddiol; sef osgoi hyd yn oed rhagor o ficro-reoleiddio manwl.
  - O safbwynt ymarferol, nid yw gorfodi'r set gyfredol o ymrwymadau gwirfoddol wedi bod yn syml.
- 1.36 Yn ein hadolygiad strategol diwethaf roeddem hefyd wedi ystyried gwahanu gwahanol rannau o BT yn strwythurol. Roeddem wedi nodi y byddai hon yn dasg gymhleth, ac na fyddai'n cael gwared â'r angen am reoleiddio. Roeddem wedi dweud y byddai'n newid sylweddol i strwythur diwydiant y DU, ond y gallai efallai yn y pen draw ddatgloi gwerth a gwella gwasanaeth i gwsmeriaid, arloesedd a chystadleuaeth. Roeddem wedi nodi y byddem yn dychwelyd at y cwestiwn hwn pe ne bai gwahanu swyddogaethau yn sicrhau mynediad cyfartal go iawn.
- 1.37 Rydym yn credu bod pedwar dull gweithredu y dylem ni eu hystyried yn yr adolygiad hwn. Rydym yn croesawu eich safbwyntiau ar bob dewis.
- **Bwrw ymlaen â'r dull gweithredu presennol.** Efallai byddwn yn dod i'r casgliad bod y fframwaith rheoleiddio presennol yn dal yn briodol, ac y gellid mynd i'r afael ag unrhyw bryderon yn llawn drwy'r cylch arferol o adolygiadau o'r farchnad, neu drwy fecanweithiau datrys anghydfod sydd eisoes yn bodoli.
  - **Cryfhau'r model presennol o wahanu swyddogaethau.** O dan y dull gweithredu hwn byddem yn mynd i'r afael ag unrhyw bryderon gyda'r setliad rheoleiddio presennol, naill ai drwy amrywiadau yn Rhwymedigaethau cyfredol BT, neu drwy amodau rheoleiddio newydd a fydd wedi'u gosod yn y Fframwaith Ewropeaidd. Gallai enghreifftiau gynnwys diwygio ffin Openreach; mwy o waith monitro a gorfodi manwl o reolau dyrannu costau; rheolaethau ffioedd sy'n cynnwys cymhellion cryfach i wella ansawdd gwasanaeth; a chosbau sy'n fwy llym am beidio â chydymffurfio'n gyson.
  - **Ystyried gwahanu strwythurol.** Gallai hyn esgor ar fanteision gan y byddai'n mynd i'r afael â chymhelliant gwaelodol BT i wahaniaethu yn erbyn cystadleuwyr, ac yn galluogi fframwaith rheoleiddio symlach. Gall hefyd gynyddu ffocws rheoli Openreach ar benderfyniadau ynghylch buddsoddi yn y rhwydwaith a materion sy'n ymwneud â pherfformiad a'u rheoli. Fodd bynnag, i'r graddau y mae'r materion hynny'n codi oherwydd diffyg cystadleuaeth i Openreach, efallai na fydd yn mynd i'r afael â nhw'n llawn. Byddai'n ymyriad ymwithiol a chymhleth ar gyfer BT a gweddill y diwydiant, gyda sialensiau sylweddol ar gyfer gweithredu. Byddai hefyd yn gofyn am reoleiddio parhaus i ddiogelu yn erbyn gormod o elw gan y 'monopolydd' uchel sydd ar wahân yn strwythurol.
  - **Llawer o ddadreoleiddio a dibynnu mwy ar gystadleuaeth o un pen i'r llall.** Mae cystadleuaeth ar sail mynediad yn gallu bod yn effeithiol er mwyn hybu

cystadleuaeth i lawr o dagfa mynediad, ond mae'n annhebyg o wella perfformiad mewn perthynas â'r dagfa mynediad ei hun. Gallai perfformiad gwell gan Openreach felly ddigwydd wrth i ni hybu mwy o gystadleuaeth uniongyrchol o un pen i'r llall, wrth fod yn fwy dewisol ynghylch lle a sut rydyn ni'n defnyddio atebion mynediad. Fodd bynnag, mae hyn yn gallu arwain at ragor o gostau, ac felly prisiau uwch, os caiff rhwydweithiau eu dyblygu. Rydyn ni wedi gweld amrywiaeth o fodelau'n rhyngwladol, sy'n darparu ystod o ganlyniadau gwahanol.

- 1.38 Rydyn yn awyddus i glywed safbwyntiau ar y rhain ac unrhyw ddewisiadau eraill ar gyfer ein strategaeth rheoleiddio telegyfathrebu sefydlog gyffredinol. Yn benodol, rydyn ni eisiau clywed tystiolaeth am unrhyw ganlyniadau gwael i gwsmeriaid sy'n deillio o reoleiddio nawr, a sut gallai modelau amgen fynd i'r afael â nhw.
- 1.39 Ar ben hynny, mae angen i ni ystyried y cynnyrch penodol a ddylai fod yn ffocws ar gyfer unrhyw reoleiddio mynediad parhaus. Dros y blynyddoedd diwethaf rydyn ni wedi dibynnu'n drwm ar atebion gweithredol (fel mynediad i wasanaethau Ether-rwyd) sy'n mynnu bod BT yn darparu gwasanaethau sy'n gweithio'n llawn i ddarparwyr cyfathrebu ar sail cyfanwerthu. Fodd bynnag, mae hyn yn rhoi gallu'r farchnad i ddarparu gwasanaethau gwahanol yn y fantol ac, maes o law, mae'n llesteirio'r arloesedd sy'n cael ei ddarparu gan gystadleuaeth.
- 1.40 Rydyn yn awyddus i glywed a fyddai ailffocysu strategol ar becyn o atebion goddefol - sy'n cynnwys mynediad i elfennau o seilwaith rhwydwaith fel pibellau, ffibr tywyll neu donfeddi - yn gallu arwain at gystadleuaeth sy'n fwy effeithiol a chynaliadwy; un sy'n hybu arloesi parhaus yn ogystal â chystadleuaeth ar ansawdd gwasanaeth. Y gwir brawf ar gyfer unrhyw newid yn y dull gweithredu yw a fydden ni wedyn yn gallu dadreoleiddio atebion gweithredol yn is i lawr.

### Cynnal cystadleuaeth effeithiol mewn gwasanaethau symudol

- 1.41 Mae hanes cystadleuaeth mewn gwasanaethau symudol yn wahanol iawn i wasanaethau sefydlog. Nid oedd y sector wedi dechrau gyda chwaraewr gwreiddiol yn mwynhau cyrhaeddiad cenedlaethol. Roedd natur buddsoddiad a chystadleuaeth symudol yn golygu, yn gyffredinol, ein bod wedi gallu dibynnu ar gystadleuaeth o un pen i'r llall er mwyn darparu canlyniadau da i ddefnyddwyr symudol.
- 1.42 Mae hanes gwasanaethau symudol yn y DU wedi bod yn astudiaeth achos hir i faint o gystadleuwyr sydd eu hangen i sicrhau bod cystadleuaeth o un pen i'r llall yn effeithiol. Yn 1985 dyfarnwyd y trwyddedau cyntaf ar gyfer gwasanaethau analog i ddau weithredwr. Erbyn 1994, roedd digon o sbectrwm wedi cael ei ddarparu i gynnal pedwar gweithredwr rhwydweithiau digidol 2G. Roedd yr arwerthiant 3G yn 2000 wedyn wedi cael ei ddefnyddio i hybu pumed gweithredwr. Ers i Orange a T-Mobile uno i greu EE, rydyn ni wedi dychwelyd i bedwar gweithredwr. Gall y gostyngiad hwn barhau os caiff cynnig Three i brynu O2 ei gymeradwyo.
- 1.43 Ar hyd y ffordd mae angen i ni wneud ymyriadau i ddiogelu defnyddwyr symudol rhag prisiau uchel; yn bennaf y cyfraddau cyfanwerthu i derfynu galwadau a ffioedd crwydro rhyngwladol.
- 1.44 Mae modd crynhoi ein dull gweithredu strategol ar gyfer cystadleuaeth o un pen i'r llall mewn gwasanaethau symudol fel a ganlyn:
  - Rydyn ni'n credu ei bod yn debyg y bydd defnyddwyr yn y DU yn cael gwasanaeth gwell am brisiau is os oes nifer rhesymol o gystadleuwyr effeithiol. Yn ein harwerthiant 4G, roeddem wedi diffinio o leiaf pedwar cyfanwerthwr

cenedlaethol credadwy ar gyfer gwasanaethau symudol. Felly roeddem wedi cadw rhywfaint o'r sbectrwm a oedd ar gael ar gyfer pedwerydd cyfanwerthwr cenedlaethol ar wahân i'r tri gweithredwr symudol mwyaf.

- Rydym wedi croesawu'r manteision a ddaw yn sgil rhannu rhwydwaith rhwng y cyfanwerthwyr cenedlaethol hyn; yn benodol; y potensial i leihau costau a gwella darpariaeth. Rydym felly wedi cyfyngu ein hymateb i gynigion ar gyfer rhannu rhwydwaith er mwyn sicrhau bod rheolau ar waith i ddiogelu cystadleuaeth yn is i lawr, gan edrych ar feysydd fel rhannu gwybodaeth sy'n gyfrinachol yn fasnachol. Ar hyn o bryd mae dau o'r partneriaethau hyn, rhwng EE a Three, a rhwng Vodafone ac O2.
- Rydyn ni hefyd wedi croesawu'r manteision mae'r Gweithredwyr Rhith Rwydwaith Symudol yn gallu eu cynnig i ddefnyddwyr. Mae'r darparwyr hyn yn cynnig gwasanaethau adwerthu symudol heb fod yn berchen ar yr holl seilwaith symudol eu hunain, ac felly'n darparu gwell cystadleuaeth adwerthu, er bod hynny heb yr un gallu i wahaniaethu rhwng gwasanaethau sy'n gysylltiedig â rheolaeth rhwydwaith. Ar hyn o bryd mae 21 o weithredwyr rhith rwydwaith symudol llawn a nifer o weithredwyr rhith rwydwaith symudol ysgafn<sup>17</sup>, mae gan rai ohonynt berthynas fasnachol uniongyrchol gyda'r gweithredwr rhwydwaith symudol sy'n eu cynnal ac mae rhai yn defnyddio galluogwr rhith rwydwaith symudol er mwyn cael mynediad gweithredwr rhwydwaith symudol. Hyd yma, rydym wedi gweld ei bod wedi bod yn rhaid i ni osod rhwymedigaethau mynediad ar weithredwyr rhwydwaith er mwyn cyflawni'r lefel hon o gystadleuaeth adwerthu, er ein bod yn nodi bod agweddau gweithredwyr symudol unigol at weithredwyr rhith rwydwaith symudol wedi newid dros amser.

- 1.45 Fodd bynnag, mae'r agwedd hon yn cael ei herio gan don ddiweddar o uno cwmnïau symudol yn Ewrop. Mae uno cwmnïau wedi cael ei glirio yn Awstria, yr Almaen ac Iwerddon. Mae'r cyfan wedi gweld nifer y gweithredwyr yn disgyn o bedwar i dri ac mae'r cyfan yn defnyddio rhwymedigaethau mynediad gweithredwyr rhith rwydwaith symudol i wneud iawn am gyfngiad cystadleuaeth o un pen i'r llall. Mae hyn yn wahanol i'r sefyllfa yn UDA lle cafodd y cynnig i uno Sprint a T-Mobile yn 2014 gan newid pedwar yn dri, ei rwystro gan yr awdurdodau cystadleuaeth
- 1.46 Daw'r penderfyniadau hyn yng nghanol honiadau bod Ewrop yn disgyn y tu ôl i farchnadoedd byd-eang eraill, UDA yn bennaf, a bod angen cyfuno i hyrwyddo buddsoddiad. Fel rydyn ni'n ei drafod uchod, nid ydym yn gweld bod y dystiolaeth sydd ar gael yn cefnogi'r honiadau hyn.
- 1.47 Mae'r uno yn Awstria ac Iwerddon wedi arwain at sylw am yr effaith ar brisiau. Mae tystiolaeth o gynnydd sylweddol mewn prisiau, o leiaf ar gyfer rhai segmentau o gwsmeriaid. Er enghraifft, mae Three Ireland wedi codi'r prisiau ar gyfer ei gwsmeriaid Bill Pay Sim-only 25%. Yn Awstria, mae dadansoddiad RTR<sup>18</sup> o filiau defnyddwyr yn dangos bod prisiau wedi codi dros 30% rhwng diwedd 2013 a diwedd y llynedd, er efallai y bydd gweithredwr rhith rwydwaith symudol newydd sydd wedi ymuno â'r farchnad yn ddiweddar yn rhoi pwysau i ddod a phethau i lawr. Rydyn ni'n

<sup>17</sup> Mae gweithredwyr rhith rwydwaith symudol llawn yn weithredwyr rhith rwydwaith symudol gyda'u cardiau SIM eu hunain a'u codau rhwydwaith symudol eu hunain. Fydd gweithredwyr sy'n diwallu'r ddau amod hyn, ond mae'r gyfran fwyaf ohonynt (dros 50%) yn berchen i unrhyw un o'r gweithredwyr rhwydwaith symudol yn yr un farchnad genedlaethol ddim yn cael eu cynnwys.

<sup>18</sup> Awdurdod Rheoleiddio Darlledu a Thelegyfathrebu Awstria

cyflwyno rhywfaint o ddadansoddiad or newidiadau hyn mewn prisiau yn y ddogfen hon, a byddem yn croesawu tystiolaeth ac asesiadau eraill.

- 1.48 Ar y cam hwn byddai'n briodol rhoi sylw ar y cynnig i uno Three ac O2. Mae'r cynigion manwl eto i gyrraedd y Comisiwn Ewropeaidd, sy'n gyfrifol am ystyried yr uno.
- 1.49 Rydym yn dechrau o safle o blaid cystadleuaeth. Mae defnyddwyr yn y DU wedi elwa'n fawr o gystadleuaeth o un pen i'r llall mewn gwasanaethau symudol. Lle mae'n effeithiol ac yn gynaliadwy, rydym yn credu y dylid ei chynnal. Efallai na fydd model cystadleuaeth ar sail mynediad wedi'i reoleiddio yn darparu'r un lefel o fanteision, a byddem yn wylidwrus rhag ei fabwysiadu oni bai fod cystadleuaeth o un pen i'r llall yn anghynaliadwy.
- 1.50 Fodd bynnag, rydym yn cydnabod ei bod hi'n aml yn gymhleth mesur cynaliadwyedd cystadleuaeth o un pen i'r llall. Pan na fydd cwmni sydd eisoes yn bodoli yn hyfyw mwyach a'i fod ar fin gadael y farchnad, efallai ei bod yn glir nad yw cystadleuaeth yn gynaliadwy mwyach. Fodd bynnag, efallai byddwn yn mynd ymhellach ac yn llunio'r farn ei bod yn annhebyg y bydd cystadleuaeth yn gynaliadwy mewn amgylchiadau pan na fydd cwmnïau yn gallu buddsoddi digon i gynnal lefelau cyfredol o gystadleuaeth yn y tymor hwy.

#### Rheoleiddio i ddiogelu cymhellion ar gyfer buddsoddi effeithlon

- 1.51 Mae modelau gwahanol o gystadleuaeth yn gallu darparu canlyniadau gwahanol. Cwestiwn pwysig ar gyfer yr adolygiad hwn ydy: sut gall ymyriadau rheoleiddio sydd wedi cael eu dylunio i ddarparu cystadleuaeth barhau i ddiogelu cymhellion y sector preifat ar gyfer buddsoddi effeithlon? Yn benodol, lle defnyddir atebion cystadleuaeth ar sail mynediad, sut gall y rhain fod yn effeithiol wrth sicrhau buddsoddiad ac arloesedd parhaus, a pheidio â dileu'r cymhelliant i ddarparwyr fuddsoddi mewn cystadleuaeth o un pen i'r llall?
- 1.52 Yn gysylltiedig â'r cwestiwn hwn ydy'r dull gweithredu y dylem ni ei ddefnyddio wrth osod prisiau ar gyfer cael mynediad at rwydweithiau a gwasanaethau wedi'u rheoleiddio. Yn draddodiadol, ein hegwyddor gyffredinol fu galluogi'r cyfle i fuddsoddwyr adennill y costau maent wedi eu cael yn effeithlon. Mewn gwasanaethau a rhwydweithiau risg is ac mwy aeddfed, mae hyn yn gymharol syml. Fodd bynnag, mae'r dull gweithredu ar gyfer rheoleiddio buddsoddiadau newydd mawr ac a allai fod â risg iddynt yn anoddach.
- 1.53 Mewn amgylchiadau o'r fath rydyn ni wedi mabwysiadu'r egwyddor 'bet deg', gan geisio sicrhau bod y buddsoddwyr yn gallu elwa ar unrhyw fantais sy'n gysylltiedig â menter fentrus lwyddiannus, ochr yn ochr ag anfanteision anochel methiant. Yn achos penodol gwasanaethau band eang cyflym iawn gan BT, roedd hyn wedi arwain at rwymedigaeth i gyflenwi pob darparwr yn gyfartal, ond gyda rhywfaint o ryddid prisio. Mae'r dull gweithredu rydym wedi'i fabwysiadu yn rhoi'r rhyddid i BT osod pris y cynnyrch mynediad cyfanwerthu, ar yr amod nad yw'n 'gwasgu elw' ei gystadleuwyr: hy sicrhau bod digon o wahaniaeth rhwng y pris cyfanwerthu a phris ei wasanaethau band eang cyflym iawn adwerthu.
- 1.54 Mae gennym ddiddordeb mewn sut gallai dewisiadau eraill ar gyfer rheoleiddio effeithio ar gymhellion buddsoddi a chystadleuaeth. Gallai'r rhain gynnwys rheoleiddio pris ar sail cyfraddau enillion wedi'u haddasu yn ôl risg; modelau rhannu buddsoddiad lle caiff y risgiau a'r costau eu rhannu ymysg y partneriaid sydd is i lawr;

ac enghreifftiau o reoleiddio ysgafnach ar gyfer buddsoddiadau newydd neu farchnadoedd dechreuol.

### Ystyried cyfuno

- 1.55 Ddeng mlynedd yn ôl, roedd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn prynu gwasanaethau gwahanol gan ddarparwyr gwahanol ac roedd y gwasanaethau hyn yn cael eu darparu dros rwydweithiau gwahanol. Roedd cyfuno wedi cael ei ddarogan, ond nid oedd wedi digwydd eto. Mae'n realiti erbyn hyn, ac mae'n digwydd ar sawl ffurf.
- 1.56 Un math o gyfuno ydy pan fydd yr un gwasanaeth yn gallu cael ei ddarparu drwy sawl ffordd, ac felly mae modd ystyried y gwasanaethau hyn fel dirprwyon. Er enghraifft, mae'r twf diweddar mewn gwasanaethau negeseuon dros y rhyngwyd fel WhatsApp, ochr yn ochr â gostyngiad yn nifer y negeseuon testun sy'n cael eu hanfon, yn awgrymu bod nifer o ddefnyddwyr nawr yn gweld y gwasanaethau hyn fel dirprwyon agos.
- 1.57 Mae'r math hwn o gyfuno yn debyg o fod o fudd i ddefnyddwyr; maen nhw'n cael dewis gwell o wasanaethau, gyda rhai yn cynnig swyddogaethau gwell. Yn nodweddiadol mae hyn yn cynyddu lefelau'r gystadleuaeth ac felly'n lleihau unrhyw angen am reoleiddio. Er enghraifft, dadleuwyd ers rhai blynyddoedd a ydy gwahanol fathau o deffoni llais (sefydlog, symudol a dros y rhyngwyd) yn ddirprwyon. Os felly, a allai hyn fraenaru'r tir ar gyfer dadreoleiddio gwasanaethau ffôn. Mae hwn yn fater allweddol i'r adolygiad hwn ac rydyn ni'n dechrau o'r safle bod achos dros ddadreoleiddio.
- 1.58 Ail fath o gyfuno ydy lle mae gwahanol fathau o rwydwaith yn mabwysiadu pensaerniaeth gyffredin. Gartref, mae mwy a mwy o ddefnyddwyr yn defnyddio dyfeisiau di-wifr (ffonau clyfar, tabledi, gliniaduron) sydd wedi'u cysylltu â'u rhwydwaith band eang sefydlog. Pan fyddan nhw oddi cartref, mae'r un dyfeisiau'n cysylltu â rhwydweithiau symudol sy'n defnyddio mwy a mwy ar ôl-gludo ffibr sefydlog i ddiwallu'r twf yn y galw am gapasiti. Os bydd y patrymau hyn yn parhau, bydd rhwydweithiau sefydlog a symudol yn dechrau edrych yn debyg iawn, gyda'r naill a'r llall yn defnyddio ffibr allan i ymyl y rhwydwaith, a di-wifr i gysylltu â dyfeisiau defnyddwyr. Gallai'r math hwn o gyfuno symud y dagfa economaidd i ffwrdd o fynediad 'gollwng terfynol' ac at 'ôl-gludo', ac arwain at fodelau newydd o gystadleuaeth rhwng gwahanol fathau o fynediad di-wifr.
- 1.59 Trydydd math o gyfuno ydy lle bydd gwasanaethau gwahanol yn cael eu gwerthu i ddefnyddwyr fel rhan o'r un bwndel adwerthu, ac felly mae'r gwasanaethau hyn yn ategu ei gilydd. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf rydyn ni wedi gweld sawl ton o fwndelu, gan ddechrau gyda gwasanaethau llais a band eang yn cael eu darparu dros yr un cysylltiad ('dau wasanaeth'); wedyn ychwanegu cynnwys ('tri gwasanaeth'); a gyda symudol yn cael ei ychwanegu fwyfwy at y naill neu'r llall ('pedwar gwasanaeth').
- 1.60 Mae'r math hwn o gyfuno'n gallu darparu prisiau is i ddefnyddwyr, os bydd y darparwr yn trosglwyddo'r arbedion effeithlonrwydd adwerthol a ddaw gyda'r bwndelu. Fodd bynnag, gallai defnyddwyr ddiodef os ydy'r bwndelu hyn yn arwain at lefelau is o gystadleuaeth adwerthu. Mae'r pryder hwn yn gallu codi am ddau reswm: yn gyntaf oherwydd bod diffyg cystadleuaeth yn unrhyw un o'r gwasanaethau unigol yn gallu effeithio ar y bwndel i gyd, ac yn ail oherwydd bod bwndelu adwerthol yn gallu ei gwneud hi'n gymhleth i ddefnyddwyr newid rhwng darparwyr.



- 1.61 Yn benodol, mae rhoi cynnwys mewn bwndeli adwerthu yn codi'r cwestiwn ynghylch y ffordd orau o hybu cystadleuaeth, nid dim ond mewn gwasanaethau cyfathrebu, ond y cynnwys sy'n rhan o'r bwndel. Ar hyn o bryd, mae bwndeli sy'n cynnig tri gwasanaeth yn ffocws penodol cystadleuaeth adwerthu, gyda thua 25% o gartrefi'r DU yn eu defnyddio. Mae tystiolaeth mai cynnwys teledu ydy'r rhan bwysicaf o'u bwndel ar gyfer nifer o ddefnyddwyr. Felly os na all darparwr adwerthu gynnig cynnwys deniadol, mae hyn yn debyg o leihau cystadleuaeth ar draws pob gwasanaeth yn y bwndel.
- 1.62 Nid yw mynediad at gynnwys allweddol, yn enwedig cynnwys sy'n annog pobl i brynu teledu drwy dalu, yn bryder newydd. Yn benodol, mae safle Sky fel darlledwr a gweithredwr plattform sydd wedi'i integreiddio'n fertigol, gyda rheolaeth dros lawer iawn o gynnwys allweddol, wedi denu llawer iawn o sylw dros yr 20 mlynedd diwethaf.
- 1.63 Yn 2010 roeddem wedi cwblhau ein hadolygiad ein hunain o deledu drwy dalu. Daethom i'r casgliad y dylai fod yn rhaid i Sky gynnig Sky Sports 1 a 2 i adwerthwyr a oedd yn cystadlu ag ef; yn y bôn roedd hyn yn fodel cystadleuaeth ar sail mynediad ar gyfer y math hwn o gynnwys. Er bod Sky wedi cytuno ar delerau masnachol i ddarparu'r sianeli hyn i Virgin Media a TalkTalk, ar hyn o bryd mae'n darparu Sky Sports 1 a 2 i BT ar delerau wedi'u rheoleiddio, ac rydym yn awr ar ganol adolygu'r rheoleiddio hynny.
- 1.64 Yn 2010 roeddem hefyd wedi cyfeirio nifer o farchnadoedd a oedd yn ymwela ar yr hawl i ddangos ffilmiau diweddar o brif stiwdios Hollywood at y Comisiwn Cystadleuaeth. Daeth y Comisiwn Cystadleuaeth i'r casgliad, er bod cystadleuaeth yn y fachnad adwerthu teledu drwy dalu yn gyffredinol yn aneffeithiol, nid oedd safle Sky o ran ffilmiau yn effeithio'n andwyol ar gystadleuaeth. Nododd fod Ofcom wedi ceisio mynd ati ar wahân i ddatrys safle Sky o ran cynnwys chwaraeon. Dywedodd petai newid mawr mewn amgylchiadau, y gallai hynny arwain at graffu o'r newydd.
- 1.65 Mae cyfuno'n dod â gwasanaethau telegyfathrebu traddodiadol ynghyd â darparu cynnwys. Mae hyn yn codi'r cwestiwn a ydy ein hoffer rheoleiddio amrywiol yn briodol er mwyn ein galluogi i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon o ran cystadleuaeth ar draws y gwasanaethau sydd yn y bwndel adwerthu. Nid ydy hynny o reidrwydd yn golygu bod arnom angen offer rheoleiddio union yr un fath ar gyfer pob elfen o'r bwndel, ond yn hytrach bod angen offer digonol i allu mynd i'r afael ag unrhyw ystumiadau cystadleuol yn gyson, er budd defnyddwyr.

### Sicrhau gwasanaethau sydd o ansawdd digonol i ddefnyddwyr a busnesau

- 1.66 Wrth i wasanaethau cyfathrebu ddod yn anhepgor i'r rhan fwyaf o ddinasyddion, ac yn hanfodol i bob busnes, mae angen ac mae disgwyl cael ansawdd uchel. Mae 'ansawdd' yn cynnwys amrywiaeth o ffactorau:
- perfformiad technegol y gwasanaeth (ee cyflymder band eang, cyfraddau llwyddiant galwadau symudol);
  - effeithlonrwydd gosod y gwasanaeth (ee amseroedd disgwyl am osod, a ydy'r peiriannydd yn cyrraedd ar yr adeg a ddwedwyd);
  - gwytnwch a dibynadwyedd y gwasanaeth (ee cyfraddau namau, amseroedd trwsio namau);

- yr amrywiaeth o ansawdd gwasanaeth sydd ar gael i ddefnyddwyr a busnesau, gan gynnwys dewisiadau ar gyfer ansawdd gwasanaeth uwch er mwyn diwallu anghenion defnyddwyr penodol (ee busnesau); a
  - ansawdd y gwasanaeth i gwsmeriaid, gan gynnwys effeithiolrwydd delio â chwynion.
- 1.67 Un maes penodol sy'n peri pryder i ni ydy ansawdd y gwasanaeth sy'n cael ei gynnig gan Openreach i'w gwsmeriaid cyfanwerthu, ar gyfer rhai o'r gwasanaethau rydyn ni'n eu rheoleiddio. Pan gytunwyd ar y Rhwymedigaethau, roedd cred bod Openreach wedi cael pob cymhelliant i fuddsoddi yn ei rwydwaith a darparu gwasanaeth o ansawdd da, wrth ystyried ei ffocws cynyddol ar anghenion ei holl gwsmeriaid cyfanwerthu yn is i lawr, gan gynnwys BT Retail. Fodd bynnag, mae mwy a mwy o gonsensws nad oedd hyn yn wir.
- 1.68 Mae Openreach yn gweithredu i wella ansawdd ei wasanaeth ond, wrth ystyried pwysigrwydd ansawdd gwasanaeth i ddefnyddwyr a busnesau, rydym wedi gosod amrywiaeth o safonau sylfaenol ar gyfer ei berfformiad ar gynnyrch cyfanwerthu penodol. Wrth edrych ymlaen mae arnom eisiau deall:
- a ydy'r safonau sylfaenol rydym wedi'u gosod yn ddigon heriol ac a ydyn nhw'n darparu'r hyn mae ar ddefnyddwyr a busnesau ei eisiau gan y gwasanaethau cyfathrebu gwell sydd ar gael heddiw. Sut a pham y byddai angen i safonau esblygu dros amser, a sut byddai hyn yn gweithio'n ymarferol?
  - a oes dulliau gweithredu eraill ar wahân i safonau sylfaenol, a allai leihau'r risg o amrywiaeth gynyddol o reoleiddio sy'n fwy manwl. Gallai'r rhai eraill gynnwys gwybodaeth i ddefnyddwyr, hyrwyddo mwy o gystadleuaeth o ran ansawdd gwasanaethau, neu ddulliau sy'n gwella'r cymhellion a'r gwobrau am gynnig gwasanaeth o ansawdd uwch.
- 1.69 Yn fwy cyffredinol, rydyn ni'n nodi nad ydy materion sy'n ymwneud ag ansawdd gwasanaeth wedi'u cyfyngu i'r gwasanaethau rydyn ni'n eu rheoleiddio. Er enghraifft, rydyn ni'n pryderu ynghylch yr hyn sy'n ymddangos fel diffyg cystadleuaeth adwerthu i ddarparu band eang dosbarth busnes i fusnesau bach a chanolig. Ac rydyn ni'n ymwybodol o amrywiaeth o bryderon sy'n gysylltiedig ag ansawdd darpariaeth symudol.
- 1.70 Wrth gwrs, lle ceir pryderon ansawdd gwasanaeth mewn marchnadoedd cystadleuol, efallai fod hyn oherwydd nad yw defnyddwyr a busnesau'n fodlon talu am wasanaethau o ansawdd uwch.
- 1.71 Fodd bynnag, efallai ei bod hefyd yn anodd iddyn nhw gael gafael ar wybodaeth am ansawdd gwasanaeth, ar ffurf sy'n ddealladwy ac mae modd ei gymharu rhwng darparwyr. Mae hyn yn gallu arwain at roi llai o gymhelliant i ddarparwyr gystadlu ar ansawdd, gan amlygu ei hun fel llai o wahaniaeth o ran ansawdd a thebygolrwydd is o fuddsoddi mewn ffyrdd arloesol o wella ansawdd.

## **Defnyddwyr wedi'u grymuso sy'n gallu manteisio ar farchnadoedd cystadleuol**

- 1.72 Mae gwasanaethau cyfathrebu'n wahanol i gyfleustodau eraill; mae amrywiaeth o gynigion wedi cael eu hanelu at anghenion gwahanol defnyddwyr a busnesau, ac at bobl sydd â lefelau gwahanol o barodrwydd i dalu. Mae hyn yn gallu bod yn beth da i

gwsmeriaid gan eu bod yn gallu teilwra'r hyn maent yn eu prynu yn ôl eu hanghenion. Ond dim ond os ydyn nhw'n gwybod yn iawn beth sydd ar gael a'u bod yn gallu gweithredu ar hynny'n hawdd mae modd iddyn nhw wireddu'r manteision.

- 1.73 Rydym yn credu ei bod hi'n hanfodol bod gan ddefnyddwyr, ar yr adeg gwerthu, wybodaeth gywir a dealladwy sy'n eu galluogi i gymharu. Yn aml mae darparwyr yn gallu ennill cwsmeriaid newydd drwy ddarparu gwybodaeth glir a thryloyw ond weithiau efallai bydd ganddynt lai o gymhelliant i wneud hynny. Er enghraifft, nid ydy rhai agweddau ar berfformiad mor amlwg ar unwaith ar yr adeg gwerthu, neu maen nhw'n gymhleth yn dechnegol (fel darpariaeth symudol neu gyflymder band eang). Dyma lle bydd angen i ni efallai gamu i mewn i sicrhau bod gwybodaeth dda ar gael.
- 1.74 Dylai pawb allu gweithredu ar y wybodaeth honno ac, os ydynt yn dymuno, newid darparwr yn syml a heb fod mewn unrhyw berygl o golli gwasanaeth. Ein man cychwyn, ac ystyried bod popeth arall yn gyfartal, yw y dylai prosesau newid gael eu harwain gan y darparwr mae'r cwsmer yn symud ato ('y darparwr sy'n ennill y cwsmer'), gan fod ganddyn nhw gymhelliant i wneud i'r broses newid weithio'n dda. Rydyn ni wedi defnyddio'r egwyddor hon wrth ddiwygio prosesau ar gyfer newid gwasanaethau llais a band eang rhwng darparwyr ar y rhwydwaith Openreach, ac ar hyn o bryd rydyn ni'n adolygu'r broses ar gyfer newid rhwng gwasanaethau symudol.
- 1.75 Mae bwndelu yn creu set newydd o sialensiau a allai effeithio ar brofiad y defnyddwyr a lleddfu pwysau cystadleuol. Roedd ymchwil wedi canfod o'r defnyddwyr a oedd wedi newid o leiaf un o'u gwasanaethau cyfathrebu, dim ond 8% oedd wedi newid tri gwasanaeth ar yr un pryd<sup>19</sup>. Roeddem hefyd wedi gweld rhai gostyngiadau mewn cyfraddau newid ar gyfer gwasanaethau sefydlog, symudol a theledu drwy dalu yn 2014. Felly, yn ogystal ag adolygu'r prosesau newid ar gyfer gwasanaethau unigol, rydyn ni hefyd yn adolygu'r prosesau newid ar gyfer bwndeli sy'n cynnwys tri gwasanaeth.
- 1.76 Mae bwndelu hefyd yn gallu ei gwneud hi'n anoddach i ddefnyddwyr ddeall telerau contract. Er enghraifft, mae'n gallu bod yn ddryslyd i ddefnyddiwr sy'n ystyried newid, ar yr adeg pan mae'n amser i adnewyddu un o'i wasanaethau, mae'n canfod bod y gwasanaethau eraill yn dal o dan gontract am nifer o fisoedd. Ochr yn ochr â'r gwaith ar brosesau newid, efallai bydd angen i ni ystyried rhwystrau di-broses ar gyfer ymgysylltu a newid fel telerau contract.
- 1.77 Rydyn ni'n nodi bod cyfuno, cyfnerthu ac amlygrwydd cynyddol bwndeli sy'n cynnwys mwy o nodweddion yn gallu gwneud dewisiadau'n fwy cymhleth. Yn y cyd-destun hwn, mae angen i'n strategaeth esblygu er mwyn rhoi cymorth sydd wedi'i dargedu'n well i ddefnyddwyr a busnesau o ran asesu'r dewisiadau sydd ar gael. Er enghraifft, gallai hyn olygu mynd y tu hwnt i'r dulliau gweithredu cyfredol o ran gwybodaeth i ddefnyddwyr er mwyn datblygu offer i ddefnyddwyr i helpu gyda chymariaethau, ac o bosibl rôl fwy i gyfryngwyr a darparwyr gwybodaeth trydydd parti eraill.

## **Rheoleiddio wedi'i dargedu pan fydd angen, dadreoleiddio mewn mannau eraill**

- 1.78 Mae'r rheoleiddio sydd ar waith heddiw wedi cael ei adeiladu dros amser i ddiogelu yn erbyn amrywiaeth o risgiau o ganlyniadau gwael i ddefnyddwyr, drwy ddefnyddio polisi cystadleuaeth, polisi cyhoeddus a mesurau i ddiogelu defnyddwyr. Gall hyn

<sup>19</sup>Traciwr Newid Ofcom, Gorffennaf-Awst 2014, Tabl 255:

[http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/research/statistics/Switching\\_Tracker\\_2014.pdf](http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/research/statistics/Switching_Tracker_2014.pdf)

esblygu dros amser, gyda rhai risgiau yn disgyn i ffwrdd ac felly'n golygu nad oes angen rhai elfennau o reoleiddio. Rydyn ni'n awyddus i weld lle mae angen i bolisi rheoleiddio presennol esblygu efallai, a lle mae cyfleoedd i symleiddio neu i ddadreoleiddio.

### Sicrhau bod rheoleiddio'n addasu i dechnolegau newydd

- 1.79 Wrth i'r DU fabwysiadu gwasanaethau sefydlog a symudol y genhedlaeth nesaf, bydd hyn yn arwain at ddiddymu hen systemau a gwasanaethau. Felly mae angen i ni ystyried beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer unrhyw reoleiddio cysylltiedig. Gallai enghreifftiau penodol gynnwys:
- Diffodd y Rhwydwaith Ffôn Switsio Cyhoeddus, a symud at ddarparu pob gwasanaeth llais dros rwydweithiau band eang. Gallai hyn godi pryderon ynghylch dibynadwyedd gwasanaethau brys, sydd yn bwysig iawn i ni.
  - Newid o ryngysylltu traddodiadol i gysylltiad IP i gyd, gyda goblygiadau ar gyfer darparu gwasanaethau o un pen i'r llall a phrosesau cyfredol fel y gallu i symud rhif.
  - Diffodd y rhwydwaith mynediad copr. Mae gan hyn oblygiadau posibl ar gyfer buddsoddiadau presennol mewn dadfwndelu dolen leol, yn ogystal ag ar gyfer gwasanaethau arbenigol amrywiol sy'n cael eu darparu dros rwydweithiau mynediad copr. Byddai angen rheoli a goruchwyllo unrhyw newid yn ofalus dros ben is sicrhau, er enghraifft, nad oedd hyn yn amharu ar wasanaethau larymau tân a diogelwch.
  - Diffodd gwasanaethau llinellau ar les sy'n hen. Mae paratodau eisoes yn cael eu gwneud i sicrhau bod gwasanaethau pwysig sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn, fel systemau rheoli goleuadau traffig, yn cael eu mudo'n ddiogelu i dechnolegau sy'n fwy diweddar.
- 1.80 Mae datblygiadau fel y rhain yn aml yn anochel, ac mewn rhai achosion maen nhw'n ddymunol, ond mae angen rheoli'r newid yn ofalus er mwyn lleihau unrhyw risgiau cysylltiedig. Rydym yn awyddus i glywed safbwyntiau rhanddeiliaid ynghylch lle gallai'r sialensiau hyn godi yn y dyfodol, y goblygiadau ar gyfer polisïau presennol, a lle gallai fod angen i Ofcom chwarae rhan weithredol i reoli'r broses o newid.

### Cyfleoedd ar gyfer dadreoleiddio

- 1.81 Mae dadl ers tro ynghylch a fydd yr angen am reoleiddio ex ante yn benodol ar gyfer sector yn diflannu yn llwyr ar ryw adeg. Byddai unrhyw bryderon cystadleuaeth wedyn yn cael sylw drwy gyfraith cystadleuaeth ex post, ac unrhyw bryderon defnyddwyr drwy gyfraith defnyddwyr cyffredinol. Rydym yn agored i'r posibilrwydd o'r lefel hon o ddadreoleiddio os caiff ei hategu gan dystiolaeth, ond mae nifer o resymau pam mae hyn yn edrych yn annhebygol ar hyn o bryd. Er enghraifft, er ei bod yn bosibl y bydd y math o dagfa economaidd sy'n parhau a arweiniodd at greu BT Openreach yn newid wrth i'r dechnoleg esblygu, mae canlyniad lle nad oes unrhyw dagfeydd o'r fath yn ymddangos yn annhebyg.
- 1.82 Serch hynny, mae'r nod o ddefnyddio rheoleiddio cymesur, gan gynnwys chwilio am gyfleoedd i ddadreoleiddio pan fo'n bosibl, yn ganolog i egwyddorion rheoleiddio Ofcom. Y sialens ymarferol yw adnabod meysydd i'w dadreoleiddio nad ydynt yn arwain at ormod o berygl o ganlyniadau gwael i ddefnyddwyr.

1.83 Rydyn ni wedi nodi nifer o gyfleoedd posibl, gan gynnwys:

- Pan fydd modd diogelu cystadleuaeth o un pen i'r llall (mewn gwasanaethau symudol) neu ei hyrwyddo (mewn gwasanaethau sefydlog), bydd hyn yn lleihau'r angen am reoleiddio parhaus i ddarparu cystadleuaeth ar sail mynediad.
- Pan fydd cyfuno yn golygu bod modd darparu'r un gwasanaeth drwy fecanweithiau gwahanol, bydd hyn yn lleihau'r angen am reoleiddio i ddarparu cystadleuaeth ar sail mynediad. A dweud y gwir, efallai ein bod yn agos at y pwynt lle mae gwasanaethau llais drwy ddulliau gwahanol yn amnewidiadwy, sy'n golygu bod modd diddymu rheoleiddio mynediad sy'n ymwneud yn benodol â llais. Fodd bynnag, efallai y bydd rhai grwpiau o ddefnyddwyr yn arafach nag eraill i fanteisio ar y gwasanaethau newydd, ac efallai bydd angen parhau i ddiogelu'r rhain.
- Lle mae modd ffocysu cystadleuaeth ar sail mynediad ar dagfa benodol, mae hyn yn gallu caniatáu dadreoleiddio gwasanaethau sy'n is i lawr. Yn dilyn yr adolygiad strategol diwethaf, roedd llwyddiant dadfwn delu dolen leol wedi galluogi dadreoleiddio marchnadoedd band eang is i lawr, ac roedd llwyddiant rhentu llinellau cyfanwerthu wedi caniatáu dadreoleiddio marchnadoedd llais is i lawr. Os bydd mynediad i ffibr tywyll yn ateb priodol ac effeithiol, efallai y bydd dadreoleiddio rhai marchnadoedd llinellau ar les yn is i lawr yn dilyn.
- Pan fydd cystadleuaeth yn effeithiol mewn marchnadoedd daearyddol penodol, gall hyn ganiatáu ar gyfer dadreoleiddio. Un enghraifft o ddadreoleiddio ydy llinellau ar les mewn rhannau o Lundain.

1.84 Hyd yn oed lle na fydd dadreoleiddio ar raddfa fawr yn ymarferol, rydyn ni eisiau edrych ar bosibilrwydd tynnu rheoliadau unigol nad oes eu hangen mwyach. Er enghraifft, mae rhai rhanddeiliaid wedi awgrymu y gall yr Amodau Cyffredinol gynnig cyfleoedd ar gyfer symleiddio neu ddiddymu rheoleiddio.

1.85 Fodd bynnag, os bydd pryderon gwaelodol yn parhau, mae angen cydbwysu dewisiadau ar gyfer dadreoleiddio yn erbyn yr effaith ar ddefnyddwyr ac ar fusnesau. Er enghraifft:

- Gallai tynnu diogelwch i ddefnyddwyr wella hyblygrwydd darparwyr i arloesi mewn modelau busnes, ond mae hefyd yn beryg o wneud i'r defnyddwyr deimlo eu bod yn dibynnu ar fympwy penderfyniadau masnachol fel codi prisiau ar ganol contract neu gosbau ariannol am derfynu yn gynnar.
- Gallai lleihau ymyriadau i hyrwyddo cystadleuaeth gynyddu rhai cymhellion i fuddsoddi, ond gallai hefyd arwain at brisiau uwch i ddefnyddwyr. Efallai na fydd y referniw a gynhyrchir yn sgil y cynnydd hwn mewn prisiau yn cael ei ddefnyddio ar gyfer buddsoddiad ychwanegol.
- Byddai modd lleihau costau busnes drwy dynnu'r gofynion ar gyfer diogelwch penodol, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u hanelu at grwpiau agored i niwed, ond mae hyn yn berygl o greu mwy o anghydraddoldeb a lleihau lles defnyddwyr.

1.86 Rydym yn croesawu safbwyntiau rhanddeiliaid ar feysydd lle byddai'n bosibl dadreoleiddio neu eu symleiddio ymhellach.